

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Bessie Owens (Cefn Berain) a Kitty Parry (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y tair, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Gweddïwn y bydd yn gwylio dros eu hanwyliaid yn yr un modd.

I ddod

- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 3ydd–5ed. (*Rhaid iddynt fod yn 8 oed oherwydd rhesymau yswiriant.*) Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Cofiwch bod angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 25ain**. Os nad ydych wedi derbyn gwybodaeth neu eich bod eisieu ffurflen i archebu lle, plis cysylltwch â Gwion.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-10)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 24ain–26ain. Yma eto, mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 10fed**. Mwy o fanylion a ffurflenni ar gael gan Gwion.
- **LLANW** – Mae'r wyl Gristnogol hon sydd ar gyfer plant, teuluoedd, myfyrwyr, paru a phobl sengl o bob oed, yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos, ac yn ystod y dydd bydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau Hafan y Môr, Pwllheli, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a phentrefi prydfferth Pen Llŷn. Wedi oedfa'r nos, bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros banded o de. Y prif siaradwr eleni fydd y Parch. John Treharne, a bydd nifer o siaradwyr eraill hefyd yn arwain oedfaon neu seminarau. Mi fydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos. Rhaid archebu llety **erbyn Chwefror 27ain** os ydych am fanteisio ar y cabanau hunan arlwyol yn Hafan y Môr. Cewch ragor o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan www.llanw.org. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond fe fydd offer cyfieithu yn y prif oedfaon.

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Corinthiaid 4:16-18 (BCND tud.198 / BCN tud.181)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Ionawr 2017

Darlleniad y Dydd

Numeri 21:4-9

(BCND tud.143 / BCN tud.131)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes iawn i bawb ohonoch i'n gwasanaethau ym Mro Aled heddiw. Ar ddechrau wythnos lle mae'r Cymry'n draddodiadol wedi dathlu a mynegi cariad at ei gilydd mewn amrywiol ffyrdd, mae'n hoedfaon ni yn gyfle gwych i ddathlu a diolch gyda'n gilydd am gariad godidog yr Arglwydd Dduw. Mae digon o'n hemynwyr wedi mynd ati i ddisgrifio'r cariad hwn mewn penillion cofiadwy, ond tybed pa agwedd o gariad Duw sydd wedi eich taro chi yn ddiweddar? Y ffaith fod Ei gariad yn dragwyddol ac yn dra gwahanol i'r enghreifftiau dros dro o gariad yr ydym yn ei weld mor aml ar y sgrin? Neu beth am y ffaith fod cariad Duw yn Iesu Grist wedi'i gyfeirio tuag at bobl nad oes unrhyw beth hyfryd yn eu cylch? Yn wahanol i ffilmiau rhamantus lle mae rhinweddau un person yn dal llygaid ac yna'n ennyn serch person arall – yn y stori Feiblaidd nid gweld rhywbeth apelgar mewn pobl sy'n achosi i Dduw eu caru! Yn hytrach mae cariad Duw yn rhan o'i gymeriad a'i ddi-ddanwch perffaith fel Tad, Mab ac Ysbryd Glân ac mae'n cael ei ddangos tuag at bobl anhaeddiannol wrth i Iesu ddod i'r byd. Dyna mae Rhufeiniaid 5:8 yn ei ddweud wrthym mor glir: 'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.' Ydym ni'n sylweddoli mor eithafol yw'r cariad hwn?

Yn ein darlleniad ar y cyd, darllenwn am hanes o'r Hen Destament y mae Iesu ei hun yn cyfeirio ato wrth iddo siarad â Nicodemus. Yn Numeri 21 gwelwn bobl Dduw unwaith yn rhagor yn frawychus o anniolchgar – maent hyd yn oed yn disgrifio'r manna o'r nefoedd fel bwyd gwael sy'n gas ganddynt! Yn sgil eu gwrthryfel mae pla o seirff gwenwynig yn dod i'w plith ac yn naturiol mae'r Israeliadaid yn crefu ar Moses i wneud rhywbeth i'w hachub. Wedi i Moses weddio, Duw sy'n ymateb i gri ei bobl, ond mae'n gwneud hynny mewn ffordd dra gwahanol i'r hyn y mae'r Israeliadaid yn ei ddisgwyl. Yn hytrach na chael gwared o'r seirff, creu sarff arall yw'r ffordd y mae Duw yn datrys y sefyllfa! Rhoddodd orchymyn i Moses greu sarff bres i'w gosod ar bolyn fel bod unrhyw un oedd wedi cael ei frathu yn gallu edrych arni a byw. Ac wrth i ninnau ystyried breuder bywyd a grym dinistriol pechod yn ein bywydau ac yn ein byd, rhyfeddwn fod cariad Duw yn golygu bod bywyd tragwyddol a maddeuant llwyr i'w gael heddiw, ond nid trwy edrych ar unrhyw wrthrych, ond trwy droi mewn ffydd at Fab y Dyn a godwyd ar groes. 'Ac fel y dyrchafodd Moses y sarff yn yr anialwch, felly y mae'n rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu, er mwyn i bob un sy'n credu gael bywyd tragwyddol ynddo ef.' (Ioan 3:14-15).

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 25^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **“Gwaith a Gorffwys: beth allwn ni ei ddysgu o Air Duw am reoli amser, gor-weithio, delio â phwysau, gwyliau a gwneud y gorau o'n hamser?”** yn Ffestri Llansannan am 7.30. *(Anfonwch unrhyw gwestiynau penodol ar y mater i Rhodri cyn y noson.)*
- Iau – 26^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sydd am gael eu derbyn yn gyflawn aelodau yn yr oedfa nos Sul ac oedd wedi methu bod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf) yn y Granar, Llansannan am 7.30.
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00 i dderbyn nifer o ieuenctid yr Ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Llun – 23^{ain} ➤ Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Adeiladau yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd y Parch. Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn dod i'r Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00 i drafod ei lawlyfr 'Dehongli Meddwl Paul'.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i bawb o bob oed am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Gwener – 27^{ain} ➤ Bydd Cymdeithas Peniel yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd noson o "Frethyn Cartref".
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 2.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 a dosbarth yr oedolion am 11.15.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.